Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Uwchradd Gatholig Sain Alban
Y Parc
Pont-y-pŵl
Torfaen
NP4 6XG

10/12/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Tachwedd 2025

Diolch i chi am eich cymorth â'r trefniadau ar gyfer yr ymweliad interim â'r ysgol. Roeddem yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyfarfod â chi, eich staff a'ch disgyblion i drafod y gwaith gwella mae'r ysgol wedi'i gyflawni ers yr arolygiad craidd.

Yn ystod ein hymweliad, cawsom gyfle i:

- Gyfarfod â disgyblion a chlywed eu hadborth am yr ysgol.
- Ymweld â sampl o wersi ar draws y cwricwlwm i weld disgyblion a staff wrth eu gwaith.
- Arsylwi gwersi a gweithgareddau craffu ar waith ochr yn ochr ag uwch arweinwyr ac arweinwyr canol.
- Siarad ag uwch arweinwyr ac arweinwyr canol am eich gwaith gwella a sut rydych wedi gweithio i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad craidd.

## Ffocws yr ymweliad

### Cynyddu ystod y cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu medrau Cymraeg

Yn ystod ein trafodaethau, clywsom fod cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth yn flaenoriaeth allweddol i'r ysgol. Ers adeg yr arolygiad craidd, bu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol Cymreig, fel Eisteddfod Dydd Gŵyl Dewi'r ysgol ac Eisteddfodau cenedlaethol. Nodom hefyd sut mae'r ysgol wedi cryfhau perthnasoedd â sefydliadau allanol, fel yr Urdd, trwy drefnu ymweliadau preswyl i Langrannog i ddisgyblion Blwyddyn 7. Gall disgyblion ymuno â'r Criw Cymraeg ac mae'r grŵp hwn o

ddisgyblion yn gweithio'n gynhyrchiol gydag arweinwyr i hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae aelodau'r Criw Cymraeg yn penderfynu ar ymadrodd yr wythnos ac yn cynhyrchu podlediad bob pythefnos i ddathlu'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Ar ben hynny, mae arweinwyr wedi gweithio'n gynhyrchiol ag ysgolion cynradd lleol i gynllunio i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion yn gynyddol. Clywsom fod yr ysgol wedi dechrau cefnogi staff i ddatblygu eu medrau Cymraeg er mwyn sicrhau eu bod yn hyderus wrth ymgorffori ymadroddion a gorchmynion Cymraeg yn eu gwersi. Dywedodd arweinwyr wrthym fod gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ddatblygu eu medrau yn y Gymraeg a bod bron pob un o'r disgyblion yn ennill cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith erbyn diwedd Blwyddyn 11.

At ei gilydd, mae'r ysgol wedi cyflwyno strategaethau gwerthfawr i hybu gwerthfawrogiad disgyblion o'r Gymraeg.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol i arweinwyr ystyried:

- Sut gall arweinwyr weithio'n strategol i ddatblygu a gwerthuso'r agwedd hon ar waith yr ysgol ymhellach?
- Sut gall yr ysgol sicrhau bod yr holl staff yn modelu'r Gymraeg yn effeithiol yn rhan o'u harferion dyddiol?
- Sut gall yr ysgol ddatblygu gwerthfawrogiad disgyblion o hanes a diwylliant Cymru ar draws y cwricwlwm i gryfhau eu dealltwriaeth o gefndir yr iaith?

## Cryfhau prosesau cynllunio gwelliant

Yn ystod yr ymweliad, clywsom sut mae uwch arweinwyr wedi symleiddio prosesau hunanwerthuso'r ysgol i'w helpu i nodi'r meysydd pwysicaf y mae angen eu gwella. Yn ystod ein trafodaethau, eglurodd yr ysgol sut mae dull adeiladol a chydweithredol rhwng uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn cefnogi'r ffocws ar adolygu cynnydd a wnaed yn erbyn blaenoriaethau gwella.

Roedd yn ddiddorol clywed sut mae arweinwyr ar bob lefel yn cymryd rhan mewn ystod ehangach o weithgareddau hunanwerthuso, fel craffu ysgol gyfan ar waith, teithiau dysgu ar y cyd a gwerthusiadau o ddata lles. Roedd hefyd yn ddefnyddiol clywed am ymglymiad yr ysgol â'i hysgolion cynradd lleol a phartneriaid allanol. Yn ogystal, clywsom am strategaethau'r ysgol i ymwreiddio'r Gymraeg a 'chynefin' yng nghynlluniau'r cwricwlwm, arferion addysgu ac ym mywyd yr ysgol o ddydd i ddydd. Disgrifiodd arweinwyr sut mae'r gwaith hwn yn eu cynorthwyo i fod â dealltwriaeth gliriach o ddisgwyliadau ar gyfer gwaith disgyblion, gwella darpariaeth a rhannu arfer dda.

Nodom y camau rydych wedi'u cymryd, trwy anogaeth mewn cyfarfodydd rheolaeth linell, i ddatblygu atebolrwydd ymhlith arweinwyr canol; er enghraifft, maent yn arwain eu

gweithgareddau monitro eu hunain ac yn cyfrannu at ddysgu proffesiynol ysgol gyfan. Dywedodd arweinwyr canol wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a'r dysgu proffesiynol a gânt. Fodd bynnag, er gwaethaf y gwaith hwn, mae gormod o amrywiad o ran pa mor dda y mae arweinwyr ar bob lefel yn gwerthuso effaith addysgu ar ddysgu a chynnydd disgyblion.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r ysgol ystyried:

- Sut gallwch chi sicrhau bod gan arweinwyr ac athrawon ddealltwriaeth glir a chyffredin o'r cynnydd disgwyliedig y dylai disgyblion ei wneud?
- Sut mae uwch arweinwyr yn sicrhau bod pob arweinydd canol yn gwerthuso effaith addysgu ar ddysgu yn fanwl gywir?
- Sut gellir defnyddio gwybodaeth am les i wella darpariaeth y cwricwlwm ymhellach?

Roedd y tîm yn gwerthfawrogi'r croeso a'r ddeialog broffesiynol â'r ysgol yn ystod eu hymweliad. Diolch i chi unwaith eto am eich cymorth wrth gynllunio a threfnu'r ymweliad hwn.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a rhagor o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
[http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6784603](http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6784603)

Yn gywir



**Lowri Jones**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro